



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

# **Ffermwyr cenhedlaeth gyntaf** **hunangynhaliol**

Sgyrsiau gyda phum ffermwr cenhedlaeth gyntaf

Ben James

Mehffin/Gorffennaf 2022

Astudiaeth a ariannwyd gan raglen cyfnewidfa rheolaeth Cyswllt ffermio.

Fy safbwyntiau i yn unig yw'r holl safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

## Cyflwyniad

Rydw i'n newydd-ddyfodiad i fyd amaeth ar ôl ymuno â'r diwydiant 4 blynedd yn ôl heb unrhyw brofiad blaenorol ohono na theulu a oedd yn gweithio yn y diwydiant. Cychwynnais gyda 10 dafad ac roeddwn wedi gwirioni. Roeddwn yn Bostmon tan 2020, pan benderfynais fynd amdani a threulio blwyddyn mewn llaethdy. Bu hyn yn fodd o gyflymu fy natblygiad a'm gwybodaeth am ffermio. Rydw i wedi magu 200 o ŵyn llywaeth hefyd er mwyn gwneud elw. Rydw i wedi cael profiad wyna ar sawl fferm wahanol, gan gynnwys fy fferm i. Rydw i wedi wyna o 1200 o famogiaid mewn 3 wythnos i gyn lleied â 30, dan do a thu allan. Ar hyn o bryd, rydw i mewn partneriaeth gyda fy ngwraig Sam yn Brynmair Farming. Mae Brynmair farming yn system borfa sy'n rhedeg diadell o 120 o famogiaid Easycare ac sy'n bwriadu ehangu dros y blynyddoedd nesaf. Rydym yn pori mewn cylchdro ar 86 erw o dir pori parhaol, gan fwydo bêls yn ystod y gaeaf ar badogau aberth.

Fel ffermwr cenhedlaeth gyntaf, rydw i'n gwybod bod yn rhaid i mi sicrhau'r perfformiad gorau y gallaf ei sicrhau er mwyn llwyddo. Ar ôl darllen adroddiad Nuffield Michael Blanche, 'The Farming Ladder', mae wedi agor fy llygaid i'r hyn y mae angen i mi ei wneud. Er mwyn llwyddo, mae angen i mi fod yn y 5% uchaf ym mhopeth a wna. Roeddwn yn dymuno ymweld â ffermwyr cenhedlaeth gyntaf sydd ymhell ar y blaen i mi ar eu taith er mwyn i mi allu dysgu beth oedd eu pwynt gwahaniaeth nhw er mwyn llwyddo i fod yn "hunangynhaliol". Pan fyddaf yn sôn am fod yn hunangynhaliol, byddaf yn golygu peidio gorfod mynd allan i weithio oddi ar y fferm. Wrth i mi gychwyn ar fy nhaith i fod yn "hunangynhaliol", gallai'r gyfnewidfa hon sicrhau fy mod i a'r holl ffermwyr cenhedlaeth gyntaf yn cyrraedd ein cyrchfan yn gynharach trwy gyfrwng y gwersi y byddwn yn eu dysgu gan y ffermwyr hyn. Er mwyn i mi fod yn llwyddiannus, credaf fod yn rhaid i mi fynd allan i siarad gyda ffermwyr cenhedlaeth gyntaf neilltuol, a dysgu ganddynt.

O'r astudiaeth hon, rydw i'n edrych ymlaen at gyfarfod a threulio amser gyda chymeriadau gwahanol iawn, y mae ganddynt straeon gwahanol iawn, ac yn ei dro, mae hyn yn profi bod nifer o wahanol ffyrdd o sicrhau "hunangynhaliol". Rydw i'n dymuno dysgu eu meddylfryd a phopeth amdanynt fel unigolion. Mae gennyf bum cwestiwn allweddol y byddaf yn ei ofyn i bob un ohonynt;

### Pam?

Beth yw eu Pam nhw? Mae gan bawb elfen pam, a dyma'r hyn sy'n ysgogi pob un ohonom i symud ymlaen. I mi, rydw i'n dymuno cael ffordd o fyw sy'n cynnig **rhyddid** i mi a'r gallu i fod o gwmpas fy mhlant (pan fyddaf yn cael rhai). Busnes sy'n **bleserus**, ond yn bwysicaf oll, sy'n broffidiol. **Cydnabyddiaeth**, boed hynny gan gymheiriaid neu anwyliaid, credaf y gall ffermio gynnig hynny i mi.

### Beth yw'r hyn nad ydynt yn fodlon cyfaddawdu yn ei gylch?

Mae hwn yn gwestiwn penagored, ac mae modd ei ofyn am bob agwedd ar eich bywyd. Byddaf yn gadael iddyn nhw ddewis sut i ateb hwn. Mae'r pethau nad wyf i yn fodlon cyfaddawdu yn eu cylch fel a ganlyn:-

Rhaid i bopeth yr wyf yn ei wneud cyd-fynd â'm gwerthoedd craidd, ac rydw i'n cael anhawster mawr gyda hyn ar hyn o bryd, oherwydd gwrthdaro mewnol i fod yn dymuno sicrhau cynnydd, ond beth yw'r gost.

### Yn eu barn nhw, beth sy'n eu gwneud yn wahanol i ffermwyr cenhedlaeth gyntaf eraill?

Bydd hwn yn gwestiwn diddorol. Yn aml, mae'r diwylliant yma yn y DU yn golygu nad ydym yn dymuno canmol ein hunain yn agored, ond byddaf yn annog pob ffermwr y byddaf yn ymweld ag ef i wneud hynny. Bydd y cwestiwn hwn yn cynnig dirnadaeth fawr i mi o'r unigolyn.

### Yr her fwyaf, sut oeddech chi wedi ei goresgyn?

Bydd y cwestiwn hwn yn dangos a oes unrhyw gydb berthynas rhyngom ni gyd fel ffermwyr cenhedlaeth gyntaf. Credaf ein bod oll yn wynebu'r un sialensiau sylfaenol, sef:- Caffael tir, Cyfalaf a diogelwch.

Cynllun ar gyfer y dyfodol?/ Cynllun ymadael

Ar ôl llwyddo i fod yn hunangynhaliol, rydw i'n dymuno gwybod beth sydd nesaf ar eu hagenda. A ydynt yn hapus gyda phethau fel ag y maent neu a ydynt yn dymuno symud ymlaen gam ymhellach? A hefyd, a oes ganddynt strategaeth ymadael, ac os felly, beth yw hon?

Tom Addison 10/06/2022  
Fferm Green Valley  
Astwood

Mae Tom yn newydd-ddyfodiad ac mae wedi bod yn gweithio yn y diwydiant ers 9 mlynedd. Mae wedi datblygu busnes y gall deimlo'n falch ohono ac ar ôl cychwyn gyda 9 oen bach llywaeth, mae bellach yn wyna 150 o famogiaid ac yn gwerthu'r holl ŵyn fel ŵyn tew ac mae 100 o ŵyn yn cael eu hanfon at gwsmeriaid yn uniongyrchol mewn bocsys. Mae ganddo 100 erw dan gytundebau pori blynyddol a 2 sied y mae'n eu defnyddio yn unol â'u potensial, gan fagu 200 o loi'r flwyddyn. Mae Tom wedi defnyddio grantiau er budd iddo, ac mae modd gweld tystiolaeth o hyn yn ei sied magu lloi pwrpasol. Mae Sefydliad Henry Plumb wedi ei helpu i brynu iglŵau lloi Holm & Laue, ac roedd hyn wedi ei alluogi i gynyddu ei gapasiti. Defnyddiodd grantiau gan y llywodraeth hefyd i brynu offer arall gan gynnwys ieuau pen sy'n cloi a system awyru Hydor, sydd wedi helpu i wella iechyd y lloi, yn ogystal â'u trin. Tom oedd enillydd gwobr Newydd-ddyfodiad y flwyddyn yng ngwobrau Ffermio Prydain y llynedd.

### **Pam?**

Mae'n rheoli ei ffawd ei hun ac roedd wastad wedi dymuno cael ei fusnes ei hun ers yr oedd yn ifanc. Balchder a hapusrwydd mewn bywyd ac yn y swydd. Arian! Mae arian yn agor drysau.

### **Dim Cyfaddawd?**

Ansawdd, o ran da byw a pha mor dda yr ydych chi'n gwneud pethau. Safonau uchel. Teg, yn dymuno bod yn deg gyda landlordiaid, prynwyr, gwerthwyr a phawb arall.

### **Beth sy'n eich gwneud chi yn wahanol?**

Hapus i golli arian!! Dim llwybr pendant. Dyn sy'n hoffi dweud 'Ie'.

### **Her fwyaf, sut wnaethoch chi ei goresgyn?**

Tir a chyllid. Tir:- Roedd hwn wastad yn mynd i fod yn her, ond ceisio gwneud argraff dda ar landlordiaid. Neidio pan fyddant yn galw. Ceisio bod yr unigolyn cyntaf y bydd pobl yn meddwl amdanynt pan fydd rhywbeth newydd yn codi, felly mae rhwydweithio yn allweddol. Bydd geiriau da a siaradir amdanoch chi yn mynd yn bell. Dylech wastad ddweud ie a meddwl am y ffordd o gyflawni hyn ar ôl hynny. Byddwch yn neis. Cyllid:- Cardiau credyd, yn enwedig rhai 0% (Byddwch yn ofalus). Nid oedd banciau yn fodlon rhoi unrhyw beth iddo gan nad oedd ganddo unrhyw asedau na diogelwch. Buddsoddiadau preifat trwy fentrau ar y cyd, ond rhaid sicrhau bod y ddau barti o gyffelyb fryd.

### **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol? Strategaeth ymadael?**

Nid oedd yn gwybod, ond yna, aeth ymlaen yn frwd. 1000 o famogiaid yn y tymor byr. Mae'n dymuno cyflogi rhywun, felly mae angen i'r rhifau gyfiawnhau hynny. Roedd wastad yn dymuno cadw gwartheg ond roedd llif arian yn broblem. Cigyddiaeth/siop, mae cyfle enfawr yn yr ardal am gyfleuster o'r fath oherwydd maint y boblogaeth a'r ffaith bod pobl yn dymuno prynu bwyd lleol. Mae'n dymuno bod mewn sefyllfa o gael cig yn hongian bob amser hefyd, fel y gall fodloni'r galw wrth iddo ddod i mewn. Mae'n ceisio ychwanegu gwerth i'w gynnyrch. Gorffennodd gyda – Breuddwyd o odro 50 o wartheg, 1 robot a pheiriant gwerthu.

Oliver Chedgey 11/06/2022  
The Roaming Dairy  
Hampshire

Magwyd Oli yng Ngwlad yr Haf ar dyddyn, ond roedd wastad yn dymuno ffermio. Cychwynnodd ar ei daith ffermio yn ôl yn 2008 trwy brynu 90 o famogiaid Romney drafft. Bellach, mae ganddo 550 o famogiaid Romney a 50 o fuchod sugno ar 1300 erw (y mae RSPB yn berchen ar 700 ohono), ac mae ganddo 7 landlord gwahanol. Bellach, mae gan y fenter honno reolwr ac mae'n cael ei rhedeg yn debycach i fenter ar y cyd. Mae'n ffermwr llaeth i'r gogledd o Basingstoke yn Hampshire erbyn hyn. Ef yw perchennog The Roaming Dairy Limited, a sefydlwyd yn 2018 fel cytundeb ffermio cyfran, gyda pherchennog Kingsclere Estates Limited. Mae'r fenter laeth yn cynnwys 435 o wartheg croesfrid sy'n lloia yn y gwanwyn. Caiff y gwartheg eu godro mewn parlwr symudol unwaith y dydd. Mae'r ystâd yn 2500 erw ac mae 1000 erw o hwn yn wyndwn perlaysiau. Mentrodd i faes ffermio llaeth fel ffordd o fod yn ffermwr amser llawn gan fod yn rhaid iddo weithio ar y fferm gyda'r fenter ddefaid. Roedd llif arian yn broblem go iawn. Y llynedd, penderfynodd gymryd ail uned laeth yn Dorset dan gytundeb ffermio contract. Mae hon yn uned laeth fwy confensiynol sy'n cynnwys parlwr sefydlog sy'n godro 300 o heffrod Viking Red. Mae ganddo gowmon gwych sy'n gweithio yno dan drefniant amser llawn ac mae hyn yn caniatáu iddo ef fwrw ymlaen gyda chyfarfodydd yn ôl yr angen. Ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar yr unedau llaeth yw: Ffrwythlondeb, braster a phrotein ac elw ar gyfalaf. Mae'n cael cyfarfodydd gyda'i bartner bob 6 mis.

### **Pam?**

Nid oedd yn dymuno gweithio, hynny yw, nid yw'n ystyried bod yr hyn y mae'n ei wneud nawr yn waith. Mae'n fwy o ffordd o fyw ac nid oes teyrn ar ei gefn.

### **Dim Cyfaddawd?**

Peidio gorfodi'r system, a cheisio peidio gwerthu'r system i unrhyw un. Rhaid iddi weithio i'r ddau bartner.

### **Beth sy'n eich gwneud chi yn wahanol?**

Wastad yn lân ac yn daclus, yn gweithio i safon uchel. Mae'n credu bod ei sgiliau trafod yn ei wneud yn wahanol i ffermwyr eraill.

### **Her fwyaf, sut wnaethoch chi ei goresgyn?**

Cyllid a diogelwch. Er mwyn cychwyn y llaethdy crwydrol, bu'n rhaid iddo fenthylg arian. Nid oedd y banc yn ddewis a oedd ar gael, felly roedd wedi troi at Funding Circle, gan sicrhau 50% o'r cyllid dan drefniant llog o 9%, a llwyddodd i sicrhau'r 50% arall trwy fuddsoddiad preifat. Rhaid sylweddoli potensial Hunan-gred!

**Cynlluniau ar gyfer y dyfodol? Strategaeth ymadael?** Yn y tymor byr, mae'n gweithio ar ei astudiaeth Nuffield ar hyn o bryd er mwyn archwilio'r cam nesaf ar yr ysgol ffermio a darganfod a oes modd bod yn berchen ar dir o ystyried elw amaethyddol neu a ddylid gwneud buddsoddiadau y tu hwnt i amaethyddiaeth er mwyn sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy dros y tymor hir. Roedd ei strategaeth ymadael yn syml, mae'n hawdd gwerthu popeth yn y busnes llaethdy crwydrol. Dywedodd pe baech yn troi'r fferm hon ar ei phen, ni fyddai unrhyw beth ar ôl ar y fferm. Nid oes ganddo arian yn sownd mewn conchrid. Ar ddiwedd y dydd, mae angen iddo ddatblygu ecwiti.

Michael Blanche 16/6/2022

Fferm Culteuchar

Perth

Mae Michael yn rhywun yr oeddwn wedi dymuno cael sgwrs ag ef ers amser hir, ac fel y soniais yn fy nghyflwyniad, mae ei adroddiad Nuffield wedi cael effaith ddofn arnaf. Mae'n ffermwr sy'n denant ac mae'n ffermio 500 erw yn yr Alban. Mae ganddo ddiadell o 850 o famogiaid a 200 o dyrchod, ac mae'n bugeilio 450 o famogiaid ar gyfer y fferm drws nesaf hefyd. Ef yw creawdwr y podlediad gorau hefyd, sef The Pasture Pod, ac mae'n paru ei sgiliau anhygoel fel argraffiadwr gyda'i allu sgwrsio gwych er mwyn cael pobl i siarad. Roedd y sgwrs gyda Michael wedi rhoi cryn dipyn i mi gnoi cil arno. Dywedodd wrthyf am ddarganfod yr hyn yr wyf yn gallu ei wneud yn dda, a manteisio i'r eithaf ar hynny, hyd yn oed os bydd hynny yn golygu mai gweithio oddi ar y fferm sy'n cynnig budd i mi er mwyn cael y bywyd yr wyf yn ei ddymuno, dyna ddylwn ei wneud. Ei gyngor pennaf oedd sicrhau arian, ei fuddsoddi mewn ffordd ddoeth, a bydd hynny yn cynnig twf cyfalaf. Rhaid i mi gyfaddef mai Michael oedd y ffermwr yr oeddwn wedi uniaethu ag ef fwyaf a chredaf fy mod yn eithaf tebyg iddo o ran ei resymau pam a'i gred.

### **Pam?**

Caiff angerdd pobl ei danio yn ystod y cyfnod rhwng 3 a 12 oed. Symudodd i ogledd yr Alban yn ystod y cyfnod hwn yn ei fywyd, gan fyw drws nesaf i fferm, a dangoswyd y bywyd delfrydol hwn iddo. O'r adeg honno, breuddwydiodd am ffermio ond dywedwyd wrtho na fyddai modd iddo gyflawni hyn. Yn ei dridegau, pan oedd yn gweithio fel ymgynghorydd, yn ystod ymweliad â gogledd Cymru, penderfynodd bod yn rhaid "Mynd amdani!". Roedd yn dymuno bod wrth y llyw hefyd. Mae ffermio yn cynnig hynny iddo. Roedd rhyddid yn rhan o hyn hefyd. Mae gennych chi gyfle i fyw bywyd o wir bwys ac roedd hynny yn rhywbeth yr oedd yn dymuno ei wneud yn fawr. Er mwyn chwilio am eich pam, dywedwyd wrtho fod yn rhaid gofyn pum gwaith a bydd hynny yn rhoi'r gwir ateb i'r cwestiwn hwn. Felly dechreuodd, rydw i'n dymuno ffermio. **Pam?** Gan ei fod yn cynrychioli rhyddid. **Pam?** Mae rhyddid yn rhoi cyfle i mi fyw bywyd o wir bwys. **Pam?** Gan ei fod yn anodd ac mae'r her yn wrthwynebydd teilwng iawn. **Pam?** Oherwydd efallai na fyddaf yn ddigon da? **Pam?** Gan nad ydw i fyth yn siŵr a ydw i'n wych neu'n gôc oen.

### **Dim Cyfaddawd?**

Mae'r plant yn dod cyn ffermio, mae hyn wastad wedi bod yn wir ac fe fydd hyn wastad yn wir. Nid yw rhoi'r gorau iddi yn ddewis, ond ychwanegodd y gallai gynrychioli'r dewis gwell weithiau.

### **Beth sy'n eich gwneud chi yn wahanol?**

Heb os, nid oedd yn credu ei fod yn wahanol o gwbl, ond yna na, dywedodd bod gan bob un ohonom ein gwahaniaethau. Aeth ymlaen i ddweud ei fod wedi eistedd i lawr mewn cynhadledd Nuffield unwaith a bod gwir ymdeimlad o syndrom ymhonnwr wedi dod drosto. Roedd dyn yno a oedd yn pesgi 50,000 o fustych y flwyddyn, un arall oedd â 1500 o wartheg llaeth ac roedd ganddo ef 650 o famogiaid. Ond mae'n rhaid i chi chwilio am y daioni ynoch chi eich hun, darganfod yr hyn yr ydych chi'n gallu ei wneud yn dda. Gallai ysgrifennu yn well na'r ffermwyr eraill hyn. Aeth ymlaen i ddweud ei bod yn iawn i fod chi eich hun, mae gan bawb gryfderau. Byddwch eich hun a manteisiwch i'r eithaf ar eich cryfderau.

### **Her fwyaf, sut wnaethoch chi ei goresgyn?**

Caffael FBT. Y Banc! Mae rheoli llif arian wedi cyfyngu ar ein gallu i fenthyca arian er mwyn sicrhau cynnydd pellach. Pe byddai'n gwneud pethau eto, byddai'n ceisio ei reoli yn well ond wedyn efallai y byddech yn rhy ofalus. Mae angen cael cydbwysedd.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol? Strategaeth ymadael?**

Mae bellach yn 52 oed ac mae'n dechrau gofidio y bydd yn rhaid iddo ef a'i wraig fyw mewn carafan ar ôl ymddeol. Defnyddiodd y gyfatebiaeth ei fod wedi rhoi popeth ar liw coch, ac nid oes ganddo lawer o lwc ar ôl. Roedd wastad wedi credu bod angen nifer benodol o stoc arno er mwyn diffinio'r hyn yr oedd yn dymuno bod, ac mae'n dechrau anghofio hynny nawr. Mae'n chwilio am gydbwysedd yn y gwaith ar y fferm ac oddi ar y fferm. Mae ganddo 12 mlynedd nes y bydd yn ymddeol, ac mae angen ei fod wedi cynilo arian i brynu tŷ i ymddeol iddo. Mae'r dymuno teithio gyda'i wraig i ddweud diolch iddi am bopeth y mae hi wedi'i aberthu er mwyn iddo ef gael byw ei freuddwyd o ffermio. Mae ganddo ddiddordeb mewn datblygu gwerth net, meithrin buches o wartheg er mwyn cyflymu hynny. Gwthio ei bodlediad i lefelau newydd, a'r dymuniad i helpu pobl.

Tim White 25/6/2022

Maiden Bradley

Warminster

Mae Tim yn ffermwr sy'n denant ac mae'n cadw 600 o famogiaid Exlana (mae'r nifer yn amrywio trwy gydol y flwyddyn) ar 280ha (sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn hefyd) dan drefniadau gosod tymor byr. Helpodd Tim i arloesi gyda brid Exlana trwy fod yn rhan o gwmni Sheep improved genetics. Roedd yn 40 oed pan sefydlodd ei fusnes ond roedd wedi cael bywyd eithriadol yn ystod y blynyddoedd cyn hynny, gan deithio a gweithio ym mhob math o leoedd. Pe byddech yn edrych ar Tim o bell, nid yw'n eich taro chi fel "gweithredwr o'r radd flaenaf" sydd â meddwl blaengar, ond mae wedi gwneud gwyрthiau ym maes geneteg cadw defaid, ac mae ei angerdd er mwyn sicrhau gwelliant wedi ei arwain i'r fan hon heddiw. Roedd ei ffordd unigryw o gaffael tir yn drawiadol hefyd, darganfu farchnad arbenigol sef troi'n organig, gan gynnig gwneud y gwaith papur ar ran y landlord, a byddent yn mwynhau manteision y taliadau a'r stoc ar eu tir. Mae'n byw bywyd syml ac nid yw'n rhoi'r argraff ei fod yn rhywun sydd dan unrhyw straen, ac roedd bod yn ei gwmni yn brofiad ymlaciol. Cafodd flwyddyn bersonol lwyddiannus iawn yn 2021 pan ddyfarnwyd dwy wobwr iddo yng ngwobrau Farmers Weekly, sef Ffermwr defaid y flwyddyn ac Arloeswr defaid y flwyddyn.

### **Pam?**

Rydw i'n ei hoffi.

### **Dim cyfaddawdu?**

Dywedodd bod y rhain yn newid wrth i fywyd fynd yn ei flaen. Rhaid iddo fod yn hwyl. Rhaid iddo olchi ei hun ac mae'n rhaid iddo fod yn werth chweil. Rhaid iddo fod yn rhan o'r cynllun gwreiddiol hefyd. (Ychydig gyngor, y pellaf y byddwch yn dymuno mynd, y lleiaf o gyfaddawdu y gallwch ei wneud.)

### **Beth sy'n eich gwneud chi yn wahanol?**

Dywedwyd wrtho ei fod yn rhywun sy'n mynd yn groes i'r farn boblogaidd, a bod pobl yn ei edmygu am fod yn "Gegog" a heb fod yn ofni siarad yn ddiflewyn ar dafod.

### **Her fwyaf, sut wnaethoch chi ei goresgyn?**

Derbyn ei fod yn gallu gweithio gyda phobl arall, heb hynny ni fyddai lle y mae heddiw. Rhesymoli uchelgais. Yn hyn o beth, dywedodd ei fod wastad wedi dymuno bod yn berchen



ar fferm, ond mewn gwirionedd, roedd yn dymuno bod yn ffermwr. Roedd sylweddoli hyn yn drobwynt mawr iddo. Gan ei fod eisoes yn ffermwr.

## **Cynlluniau ar gyfer y dyfodol? Strategaeth ymadael?**

Cael 1000 o famogiaid yn ei ddiadell. Bod yn berchen ar gartref, a data. Nid yw brid Exlana yn unrhyw beth heb y data, ac mae'n gweithio i fanteisio'n llawn ar hyn.

Rhidian Glyn 30/06/2022  
Rhiwgriafol

Mae Rhidian yn ffermwr sy'n denant, sy'n ffermio ar Fferm Rhiwgriafol, 7 milltir i'r dwyrain o Fachynlleth. Mae'r fferm yn cynnwys 530 erw, y mae 300 erw yn dir uchel. Mae'n codi o 700 troedfedd i 1,600 troedfedd wrth ei bwynt uchaf. Yn ogystal, mae ganddo 180 erw dan drefniant trwydded pori 11 mis yn bellach i lawr y dyffryn. Mae'r fferm yn cadw 700 o famogiaid ar hyn o bryd, ynghyd â 720 o heffrod llaeth, sy'n cael eu magu ar gontract neu'n eiddo iddo i'w gwerthu yn gyfno. Mae'r niferoedd hyn o ran stoc yn hynod o drawiadol. Mae cyflawni hyn o'r dechrau bach lle'r oedd yn berchen ar 15 o ddefaid yn 2008 yn cynnig gobaid i unrhyw un y gallwch chi lwyddo trwy weithio'n galed a dyfalbarhau. Ef oedd enillydd gwobr Newydd-ddyfodiad y flwyddyn yng ngwobrau Ffermio Prydain yn 2018. Mwynheais yr amser a dreuliais gyda Rhidian yn fawr, roeddwn yn gallu uniaethu yn fwy gydag ef o ystyried fy sefyllfa i gartref, a chefais lawer o'r ymweliad.

### **Pam?**

"Hwn yw'r bywyd i mi". Mae popeth a wnaeth wedi bod ar ei gyfer ef. Yn ei eiriau ei hun, bod yn hunanol.

### **Dim Cyfaddawd?**

Dim ond delio gyda phobl y mae'n eu hoffi. Mae hyn yn anodd yn y lle cyntaf wrth feithrin perthnasoedd gyda phobl, ond mae'n rhan hanfodol o fyd busnes os ydych chi'n dymuno llwyddo.

### **Beth sy'n eich gwneud chi yn wahanol?**

Sgiliau pobl. Gweithgar ar gyfryngau cymdeithasol. Gwybod union werth ei stoc.

### **Her fwyaf, sut wnaethoch chi ei goresgyn?**

Ei her fwyaf, fel nifer o ffermwyr cenhedlaeth gyntaf eraill, oedd amynedd. Roedd yn dymuno cael popeth nawr.! Mae'n deall bod yn rhaid i bopeth fod yn raddol, ond nid yw wedi goresgyn yr her hon eto.

### **Cynllun ar gyfer y dyfodol? Strategaeth ymadael?**

Godro. Mae'n rhagweithiol iawn o ran ei safbwyntiau am y dyfodol. Mae'n deall ei fod mewn perygl mawr o ddiodeff TB gyda llif y gwartheg yn Rhiwgriafol ac mae wedi bod yn lwcus iawn trwy osgoi TB hyd yn hyn. Mae'n dymuno negyddu'r risg hon trwy odro ei fuches ei hun. Ar hyn o bryd, nid oes ganddo strategaeth ymadael.

## **Casgliad**

Waw, am ychydig fisoedd rhyfeddol. Mae fy nyled yn fawr i bob ffermwr am eu haelioni trwy roi eu hamser i mi. Mae gennyf fwy o gwestiynau nac atebion fodd bynnag, ac efallai bod hynny yn beth da. A ydw i'n gwneud y peth iawn i mi wrth symud ymlaen? A ydw i yn y maes cywir er mwyn sicrhau cynnydd? A yw fy musnes yn cyd-fynd â'm gwerthoedd ac a fydd yn gwneud hynny wrth symud ymlaen? A ydw i wir yn dymuno gwneud gwaith "amser

llawn" ar y fferm? Dyma gwestiynau y bydd yn cymryd amser i mi gael yr atebion yr wyf yn chwilio amdanynt ar fy nhaith ddarganfod.

I mi, rhywbeth mawr a ddysgais yn ystod yr astudiaeth hon oedd gweld yr holl gyfleoedd sydd ar gael os ydych chi'n fodlon symud. Yma yng Ngorllewin Cymru, ardal lle y cedwir da byw yn bennaf, ceir nifer o rwystrau sy'n eich atal rhag ymuno â'r diwydiant ffermio ar eich pen eich hun. Mae'r cyfleoedd i gaffael tir am rent rhesymol bron yn amhosibl i'w canfod, a bydd wastad rhywun sy'n fodlon talu crocbris mewn cystadleuaeth. Mae Tim White, Tom Addison ac Oliver Chedgey yn byw mewn neu gerllaw ardaloedd â'r yn Lloegr, lle'r oedd eu rhent yn rhad neu'n ddim byd (Uchafswm o £30/erw). Mae hyn eisoes yn cynnig mantais enfawr iddynt gyda llif arian a'r gallu i ddatblygu ecwiti yn y busnes. Canfyddais bod gweithredu mwy agored i rannu ffermio yn yr ardaloedd â'r hyn hefyd, a theimlaf fod mwy o ystyriaeth o anghenion y ddau barti yn hytrach na thrachwant neu ego'r perchennog tir yr wyf wedi ei weld gartref.

Fel ffermwyr cenhedlaeth gyntaf, rhaid i ni fod yn amyneddgar hefyd! Haws dweud na gwneud. Rydw i'n enghraifft o rywun sy'n dymuno cael pethau nawr, byddaf yn teimlo'n rhwystredig iawn gyda fy nghynnydd ac yn credu nad wyf yn rheoli fy nhynged fy hun. Mae angen i mi/ni gyd eistedd yn ôl bob hyn a hyn a myfyrio. Mae ein gwaith caled yn ein tywys i fannau, yr unig beth y mae angen ei wneud yw dal ati a rheoli'r hyn y mae modd ei reoli. Cefnogwch eich hun a bwrw ati!

Y peth mwyaf yr wyf wedi'i ddysgu o'r astudiaeth hon yw bod gan bob ffermwr yr oeddwn wedi ymweld â nhw feddylfryd tebyg. Roeddem oll yn rhannu'r un uchelgais ac ysgogiad i lwyddo a chyflawni ein nodau. Ar sail y sawl yr wyf wedi eu cyfarfod trwy gydol yr adroddiad hwn, credaf nad oes rheswm pam na allaf i a ffermwyr cenhedlaeth gyntaf eraill gyrraedd y brig a chyflawni popeth yr ydym yn dymuno ei gyflawni yn y diwydiant ac mewn bywyd. Ewch ati i ddarganfod eich pam, meddyliwch am yr hyn nad ydych yn fodlon cyfaddawdu yn ei gylch a chadwch at y rhain.

Dyma rai pwyntiau allweddol i ffermwyr cenhedlaeth gyntaf ac i'r diwydiant ehangach.

## Cenhedlaeth Gyntaf

1. **Rhwydweithio.** Rhwydweithio yw eich gwerth net. Mentrwch allan yno gan siarad gyda a chyfarfod cymaint o bobl ag y gallwch, dangoswch eich wyneb.
2. **Ymddiriedaeth.** Mae hwn yn un caled gan ei bod yn cymryd amser i'w feithrin gyda phobl arall, ond dylech wastad ymddiried yn eich hun.
3. **Hyblyg.** Peidiwch â bod yn anhyblyg gyda'ch cyfeiriad, mae bod yn hyblyg yn caniatáu i chi gadw eich dewisiadau yn rhai agored.
4. **Gonestrwydd.** Byddwch yn onest!
5. **Teithio.** Ewch i weld y byd, bydd eich cartref wastad yno.

## Diwydiant

1. **Busnes.** Busnes yw ffermio yn anad dim. Rhaid iddo fod yn broffidiol neu beth yw'r pwynt.
2. **Croeso.** Byddwch yn groesawgar i ffermwyr cenhedlaeth gyntaf, ein nod yw dysgu.
3. **Cyfle.** Byddwch yn agored i gynnig cyfleoedd i bobl sy'n dymuno sicrhau cynnydd ac y mae ganddynt yr ysgogiad i lwyddo.
4. **Cydweithio.** Efallai bod gennym yr atebion i'ch problemau ac i'r gwrthwyneb. Gwaith tîm sy'n gwireddu'r freuddwyd.
5. **Negyddoldeb.** Mae ffermio yn gallu bod yn ddiwydiant negyddol iawn ar brydiau. Gadewch i ni ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol, y maent lawer yn fwy na'r pethau negyddol.

Diolch am neilltuo'r amser i ddarllen hwn.